Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Priodoldeb i Ymarfer

Arweiniad ar gyfer cyflogwyr ac asiantau: y cyfrifoldeb i gyfeirio

Cyfrifoldeb y cyflogwr a'r asiant i gyfeirio

Mae cyflogwyr personau cofrestredig (ysgolion (Cyrff Llywodraethu) awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac unrhyw gorff perthnasol arall) ac asiantaethau yn gyfrifol am gyfeirio achosion honedig o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol ac euogfarn am drosedd berthnasol i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Mae'n rhaid i gyflogwr neu asiant gyfeirio achos yn unol â *Deddf Addysg (Cymru) 2014*, fel y'i diwygiwyd, a *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015,* fel y'i diwygiwyd, lle:

- mae wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person cofrestredig yng Nghymru, neu gallai fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person cofrestredig yng Nghymru pe na bai ef neu hi wedi stopio eu darparu nhw (**cyflogwr**)

- terfynodd drefniadau gyda pherson cofrestredig, neu gallai fod wedi terfynu trefniadau gyda pherson cofrestredig pe na bai ef neu hi wedi eu terfynu neu achos tebyg (**asiant**)

Nid yw'r canlynol yn gwrthwneud dyletswydd statudol cyflogwr neu asiantaeth i gyfeirio achos:

- **Setliad neu gytundebau cilyddol** lle roedd diswyddo yn bosibilrwydd.
- **Diswyddo am 'Reswm Sylweddol Arall' (RhSA)** lle terfynwyd cytundeb cyflogaeth o ganlyniad i fater disgyblaethol (ymddygiad a/neu gymhwysedd)

Mewn unrhyw achos, gall CGA ymchwilio i unrhyw achos a gyfeiriwyd ato os yw o'r farn y gallai'r honiadau fod yn gyfystyr â honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarnu am drosedd berthnasol.

Cyfrifoldeb cyflogwyr

Mae'n rhaid i gyflogwr adrodd ffeithiau achos i CGA:

(a) pan fo cyflogwr wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person cofrestredig yng Nghymru ar sail:

  (i) camymddygiad;
  (ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
  (iii) euogfarn am drosedd berthnasol.

(b) lle gallai fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau person cofrestredig ar y fath sail pe na bai'r person cofrestredig wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Cyfrifoldeb asiantau

Mae'n rhaid i asiant adrodd ffeithiau achos i CGA:

(a) lle mae wedi terfynu trefniadau ar sail:

(i) camymddygiad;
(ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
(iii) euogfarn am drosedd berthnasol.

(b) lle gallai fod wedi terfynu trefniadau ar y fath sail pe na bai'r person cofrestredig wedi eu terfynu; neu

(c) lle gallai fod wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer person cofrestredig ar y fath sail pe na bai'r person cofrestredig wedi rhoi'r gorau i gynnig ei hun i weithio.

Papurau cyfeirio – beth i'w ddarparu

Dylai cyflogwyr ac asiantau gyfeirio at Ran 2 o Atodlen 5 *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015,* fel y'i diwygiwyd i weld rhestr o'r gwaith papur perthnasol y dylid ei gynnwys gyda'r atgyfeiriad os yw ar gael.

Achosion Cyfeirio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)

Pan fydd CGA yn derbyn achos cyfeirio gan gyflogwr neu asiant, ac mae'n ymddangos y gallai achos cyfeirio o'r fath ymwneud â niwed, neu berygl niwed i blant neu oedolion agored i niwed, bydd yn cyflwyno'r achos cyfeirio i'r GDG.

Gallai'r GDG naill ai benderfynu cynnwys y person cofrestredig ar y Rhestr Waharddedig Plant neu'r Rhestr Waharddedig Oedolion, neu gallai gyfeirio'r achos cyfeirio yn ôl at CGA i'w ystyried ar wahân ar sail broffesiynol.

Nid oes gan CGA unrhyw orchwyl i ymchwilio i, neu wrando ar unrhyw fater sy'n ymwneud â niwed neu berygl niwed i blant neu oedolion agored i niwed.

Cyswllt allweddol

Cyfeiriad **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43 Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

Ffôn 029 2046 0099

Rhif ffacs 029 2047 5850

E-bost priodoldebiymarfer@cga.cymru